Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru

## Cynllun Gweithredu Cychwynnol

# Cynnwys

Rhagair 1

Cyflwyniad 2

Beth yw'r Cynllun Gweithredu Cychwynnol hwn 5

Ymgynghori ar gydrannau cychwynnol y Cynllun Gweithredu hwn – Ymgysylltu a Chydgynhyrchu 8

Atodiad 1 – Y Cynllun Gweithredu Cychwynnol Cam 1 2022 – 2025 10

Atodiad 2 – Argymhellion yng Nghynllun Gweithredu Cam 1 22

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48705, ISBN digidol 978-1-83577-341-3
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

Drwy'r Cytundeb Cydweithio (2021 – 2024), mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phlaid Cymru ar amrywiaeth o ymrwymiadau polisi diffiniedig. Un o'r ymrwymiadau yw **Dyfodol Gofal Cymdeithasol**, sef – *sefydlu grŵp arbenigol i gefnogi ein nod ar y cyd i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen, gan barhau fel gwasanaeth cyhoeddus. Byddwn yn cytuno ar gynllun gweithredu erbyn diwedd 2023. Byddwn yn parhau i integreiddio iechyd a gofal yn well ac i weithio tuag at sicrhau cydraddoldeb o ran cydnabyddiaeth a thâl i weithwyr iechyd a gofal.*

Rhoddwyd Grŵp Arbenigol ar waith ar y cyd ddechrau 2022 a hoffem estyn ein diolch i'r aelodau a gyfarfu yn ystod 2022 ac a gyflwynodd eu hadroddiad **Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru** inni ym mis Medi 2022. Mae'r weledigaeth a'r argymhellion eang yn yr adroddiad wedi ein darbwyllo ac rydym yn cytuno â'r Grŵp Arbenigol fod angen cynllun cyflawni deng mlynedd er mwyn gwireddu'r weledigaeth sydd yn yr adroddiad. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'i argymhellion yn ofalus, ac yng nghyd-destun yr heriau ariannol sydd i ddod, bydd y Cynllun hwn yn cynnwys taith dri cham tuag at Wasanaeth Gofal Cenedlaethol.

Rydym wedi ymrwymo i ymgynghori'n eang ar yr elfennau sy'n rhan o'r Cynllun hwn wrth i'r rhain ddatblygu. Mae rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad yn cyd-fynd ag ymrwymiadau presennol ein Rhaglen Lywodraethu, megis y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth a gwaith y Fforwm Gwaith Teg. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys fel rhan o sawl elfen allweddol i ymgynghori arnynt yng Ngham 1 o'r Cynllun Gweithredu Cychwynnol. Mae ymgyngoriadau eraill wedi'u cynllunio ar gyfer camau cyflwyno'r cynllun hwn wedi hynny.

Byddwn yn cyflawni'r Cynllun hwn ar y cyd â Phlaid Cymru wrth i'r Cytundeb Cydweithio presennol barhau mewn grym.



**Eluned Morgan AS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol



**Julie Morgan AS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

# Cyflwyniad

Mae gan y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru 46 o feysydd polisi. Mae Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn cydweithio ar y rhain dros gyfnod o dair blynedd o 2021 – 2024.

Un o'r meysydd polisi yw'r trefniadau cenedlaethol ar gyfer darparu Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu Grŵp Arbenigol i gefnogi ein huchelgais gyffredin i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, a hynny am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen, gyda gofal cymdeithasol yn parhau fel gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r cytundeb yn cynnwys nod i gael cynllun gweithredu i gefnogi hyn erbyn diwedd 2023. Mae'r maes polisi hefyd yn ymrwymo i barhau i ddarparu ar gyfer system gofal sydd wedi'i hintegreiddio'n well sy'n diwallu anghenion pobl, a gweithio tuag at gydnabyddiaeth a chyflogau cyfartal ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Ddechrau 2022, cytunodd y Gweinidogion ac Aelod Dynodedig Plaid Cymru ar aelodaeth y Grŵp Arbenigol. Roedd yr aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o bob math o gefndiroedd. Roedd y rhain yn cynnwys y rhai sydd â phrofiad o redeg gwasanaethau gofal cymdeithasol, arweinyddiaeth weithredol llywodraeth leol, economeg, arbenigedd academaidd, profiad o'r rhyngwyneb iechyd a gofal cymdeithasol, a phobl â phrofiad bywyd.

Cytunwyd hefyd ar Gylch Gorchwyl i lywio gwaith y Grŵp [Datganiad Ysgrifenedig: Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol – Grŵp Arbenigol (21 Chwefror 2022) | LLYW.CYMRU]. Cyfarfu'r Grŵp, sy'n cael ei gyd-gadeirio gan Dilwyn Williams a Kate Young, am y tro cyntaf ddiwedd mis Chwefror 2022. Yn dilyn estyniad bychan i'r amserlen wreiddiol, derbyniwyd adroddiad y Grŵp, ***Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru***, ddechrau mis Hydref 2022 [Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru (llyw.cymru)].



# Adroddiad y Grŵp Arbenigol

Mae adroddiad y Grŵp Arbenigol yn nodi argymhellion ymarferol i'w cyflawni ar y daith i sefydlu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol. Mae'r adroddiad yn awgrymu'r term **'Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol'**. Y rheswm am hyn yw bod aelodau wedi nodi bod y gair 'gofal' weithiau'n gallu peri i bobl feddwl am fodel meddygol. Byddai ychwanegu'r term 'cymorth' yn adlewyrchu'r nod o gefnogi pobl i fyw bywydau annibynnol, hapus.

Mae'r adroddiad yn nodi rhai meysydd clir y dylid canolbwyntio arnynt, ac yn ceisio diffinio rôl Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yng Nghymru a gwneud rhai awgrymiadau ac argymhellion penodol ar gyfer y camau nesaf ymarferol tuag at ei sefydlu.

Mae 46 o argymhellion yn yr adroddiad. Mae'r rhain yn bellgyrhaeddol ac mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rôl hanfodol ymgynghori ac ymgysylltu pellach â'r sector i sicrhau bod y sylfeini'n cael eu cydgynhyrchu fel bod ein Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yn addas yn awr ac yn y dyfodol.

Yn ei adroddiad, mae'r Grŵp Arbenigol yn glir ei farn y byddai ei weledigaeth o Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yn cynnwys gwireddu'r canlynol:

- Bydd plant, pobl ifanc ac oedolion y mae arnynt angen gofal a chymorth yn cael eu grymuso i leisio'r hyn sy'n bwysig iddynt ac yn cael adnoddau i wella eu lles a chael rheolaeth yn eu bywydau bob dydd a'u dyheadau.
- Bydd gweithlu gofal cymdeithasol medrus, sy'n cael ei werthfawrogi, ei gefnogi ac yn derbyn adnoddau yn cael ei rymuso i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i ddinasyddion a chymunedau, ar y cyd â hwy, ac yn cael ei wobrwyo'n briodol am wneud hynny.
- Bydd diwylliant arweinyddiaeth gyfiawn a theg yn grymuso dinasyddion, cymunedau a'r gweithlu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig, ac yn atebol am wella lles drwy arloesi, cydgynhyrchu a dulliau sy'n canolbwyntio ar berthynas.
- Bydd gwasanaethau gofal a chymorth yn derbyn digon o adnoddau, yn gynaliadwy, yn canolbwyntio ar y gymuned, yn cael eu cyfeirio gan yr unigolyn ac am ddim lle cânt eu darparu.

At hynny, amlinellodd y Grŵp Arbenigol y newidiadau y byddai eu hangen i gyflawni'r weledigaeth hon:

- Parch a thelerau ac amodau cydradd â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
- Buddsoddiad ariannol priodol yn y system gofal cymdeithasol.
- Symudiad yn y dyraniad adnoddau tuag at atal ac i ffwrdd oddi wrth argyfwng.
- Egwyddorion a/neu safonau a rennir yn genedlaethol i leihau amrywiadau anghyfiawn.
- Yr un agwedd at werthoedd ac arweinyddiaeth ar draws y genedl.
- Gweithlu gofal sy'n cael ei dalu a'i gefnogi'n briodol.
- Cydnabyddiaeth gyhoeddus genedlaethol o ofalwyr di-dâl fel partneriaid mewn gofal.
- Newid diwylliant ar draws y system gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson sy'n grymuso cydgynhyrchu ar y rheng flaen.
- Gweithio'n lleol ar draws ffiniau sefydliadol yn seiliedig ar sgyrsiau 'beth sy'n bwysig'.
- Cydnabyddiaeth genedlaethol fod gwytnwch cymunedol wrth wraidd cynnal gofal cymdeithasol i'r dyfodol.
- Diwylliant o alluogi.

Cydnabu'r Grŵp Arbenigol ei bod yn debygol y bydd y weledigaeth a gyflwynir yn ei adroddiad yn galw am gynllun cyflawni graddol dros 10 mlynedd o leiaf i fynd i'r afael â'i uchelgais lawn, ond bod rhaid i'r daith ddechrau nawr a bod rhaid iddi hefyd gynnwys ymgynghori helaeth â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, eu gofalwyr, y gweithlu gofal cymdeithasol ac ystod eang o randdeiliaid eraill.

Mae'r Gweinidogion a'r Aelod Dynodedig wedi'u darbwyllo gan gyfeiriad yr holl argymhellion a wnaed o fewn adroddiad y Grŵp Arbenigol. Mae'r Cynllun Gweithredu Cam 1 hwn yn nodi'r hyn y byddwn yn ei gyflawni yn y lle cyntaf, sut y byddwn yn ymgysylltu â phobl ym mhob un o'r meysydd y gwnaeth y Grŵp Arbenigol argymhellion ar eu cyfer ac, mewn nifer bach o achosion, yr ymchwil a wneir er mwyn ymchwilio yn fanylach i'r camau gweithredu sy'n debygol o fod eu hangen i fynd i'r afael â'r argymhellion.



# Beth yw'r Cynllun Gweithredu Cychwynnol hwn

Mae'r cynllun gweithredu cychwynnol sy'n dilyn yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, yng nghyd-destun y Cytundeb Cydweithio presennol, yn ystyried ac yn bwrw ymlaen â'r weledigaeth ar gyfer Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol sydd wedi'i chynnwys yn adroddiad y Grŵp Arbenigol. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn wynebu cyfnod hynod heriol o ran pwysau ar wasanaethau, gan gynnwys heriau ariannol difrifol. Mae'r pwysau hwn yn annhebygol o leihau yn y dyfodol agos. Er gwaethaf yr heriau, mae'r Gweinidogion ac Aelod Dynodedig Plaid Cymru yn dal i ddymuno, o fewn telerau'r Cytundeb Cydweithio, bwrw ymlaen ar y cyfle cyntaf â'r argymhellion hynny y gellir eu datblygu lle mae capasiti a chyllid eisoes ar gael i gefnogi'r gwaith o gyflawni. Mae nifer o argymhellion yn cyd-fynd ag ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a fydd yn cael eu hintegreiddio i'r cynllun. Ymhellach, mae'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad terfynol ar y Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – O'r Ddeddf i'r Effaith? – hefyd yn cyd-fynd ag argymhellion y Grŵp Arbenigol, a bydd yr argymhellion hynny'n cael eu gweithredu ar y cyd.

Cynigir dull tri cham, gyda rhywfaint o'r gwaith yn y Cam 1 arfaethedig eisoes wedi dechrau yn 2022.

**Cam 1 yn cyflawni dros y 2-3 blynedd bresennol (2022 – 2025)**

**Cam 2 yn cyflawni mewn 4-6 blynedd (2026 – 2028)**

**Cam 3 yn cael ei gyflwyno ar ôl 6 mlynedd (2029 ymlaen)**

Bydd yr hyn a fydd wedi'i ddysgu yn sgil Cam 1 yn llywio'r Adolygiad o Wariant nesaf a'r gwaith o ddatblygu Cam 2 yn dilyn etholiad nesaf y Senedd a gynhelir yn 2026.

Mae cael cynllun gweithredu graddol yn gydnaws â'r cynnig a wnaed gan y Grŵp Arbenigol, sef y *bydd angen cynllun cyflawni graddol o 10 mlynedd o hyd o leiaf er mwyn cydnabod uchelgais yr adroddiad yn llawn*.

Ym mhob un o'r Camau, yn ogystal â chyflawni setiau o argymhellion, cynigir y byddai angen gwneud rhagor o waith ac ymchwil i lywio'r cynllun cyflawni ar gyfer camau dilynol y rhaglen. Ar bob cam, ac mae hyn yn gwbl hanfodol, byddwn yn nodi sut y bydd ymgysylltu yn digwydd ar faterion a godwyd gan y Grŵp Arbenigol nad ydynt eisoes yn cael eu symud ymlaen drwy gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu bresennol.

Bydd y dull hwn yn ein galluogi i symud yn gyflym, ond bydd hefyd lle i wneud gwaith paratoi megis ymgysylltu â'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth a'u gofalwyr, a sefydliadau partner. Bydd hyn yn galluogi'r Gweinidogion a'r Aelod Dynodedig i gydgynhyrchu gyda chymorth y sector cyfan. Bydd Cynllun Gweithredu Cam 2 yn cael ei ddatblygu yn ddibynnol ar yr ymgysylltu a gynhelir a chanfyddiadau'r ymchwil a gynhelir yng Ngham 1. Byddai'r un broses yn cael ei chynnal hefyd mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Cam 3.

Mae **Cynllun Gweithredu Cam 1** yn ymgorffori ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a'r ymrwymiadau yn y Cytundeb Cydweithio (gweler Blwch 1 isod). Mae Atodiad 1 yn rhoi manylion y camau a fydd yn cael eu cymryd, yn ogystal â meysydd ymchwil y byddwn yn eu cyflawni yn ystod Cam 1, ac yn cysylltu'r ymchwil a'r gweithgareddau niferus â'r argymhellion yn adroddiad y Grŵp Arbenigol.

## Blwch 1

**Rhestr o ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â nhw sy'n ymwneud ag argymhellion y Grŵp Arbenigol, gan gynnwys hefyd yr ymrwymiadau o fewn y Cytundeb Cydweithio:**

- **Y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth –** Sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth o fewn Llywodraeth Cymru.
- **Y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth –** Datblygu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth.
- **Y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth –** Cryfhau gwaith partneriaeth ac integreiddio.
- **Y Fforwm Gwaith Teg –** Datblygu'r egwyddorion ar gyfer fframwaith dilyniant gyrfa ac uned gydfargeinio wirfoddol, gan ystyried hefyd dâl salwch a chontractau dim oriau.
- **Datblygu set ddata perfformiad a chanlyniadau genedlaethol.**
- **Datblygu modelau newydd o ofal integredig** drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a darparu cyfleoedd i awdurdodau lleol fuddsoddi mewn darpariaeth gofal preswyl i oedolion drwy'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso.

## Gwaith ac Ymchwil pellach yng Ngham 1 i lywio drafftio Cynllun Gweithredu Camau 2 a 3

Mae nifer o argymhellion yn cael eu gwneud o fewn adroddiad y Grŵp Arbenigol lle mae angen gwneud gwaith ac ymchwil pellach i lywio ymhellach y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu Cam 2 a 3. Felly, y bwriad yn ystod Cam 1 yw dechrau ar y gwaith a nodir ym Mlwch 2:

### Blwch 2

**Rhestr o waith pellach i ddechrau ystyried ei gwmpas a/neu ymchwilio iddo:**

- Ystyried yr opsiynau o ran Gofal Iechyd Parhaus ar ôl gweithredu canllawiau a ddiweddarwyd yn ddiweddar, ynghyd â datblygiadau megis Taliadau Uniongyrchol a fframwaith perfformiad.
- Cynnal ymchwil i ystyried opsiynau posibl sy'n ymwneud â thalu am ofal, asesu newidiadau demograffig; modelu/ail-fodelu'r rhagolygon ariannol; asesu'r effaith ar y system, y risgiau a'r canlyniadau anfwriadol y gellid eu profi, e.e. y goblygiadau trawsffiniol, unrhyw gyd-daro rhwng budd-daliadau lles a'r opsiynau ar gyfer diwygio'r trefniadau codi tâl, gan gynnwys yr opsiynau hynny a gefnogir gan y Grŵp Arbenigol.
- Cynnal ymchwil a gweithio i ddeall effeithiau ariannol a gweithredol gofal am ddim pan fo angen gyda chyfeiriad arbennig at dâl wythnosol am ofal cartref a'r terfyn cyfalaf mewn gofal preswyl, gan gymeryd i ystyriaeth argymhellion y Grŵp Arbenigol yn y maes yma.
- Dechrau gwaith tuag at ddatblygu methodolegau ffioedd cenedlaethol gan gynnwys ar gyfer cartrefi gofal. (Cam 2 y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth).
- Ymchwilio i'r opsiynau ynghylch datblygu fframwaith atebolrwydd i gyd-fynd â chyllid gofal cymdeithasol.
- Creu fframwaith Goruchwylio'r Farchnad Genedlaethol i gynorthwyo comisiynwyr i nodi, deall a chyflwyno mesurau lliniaru perthnasol o fewn y farchnad gofal cymdeithasol i wella gwytnwch a lleihau risg.

Bydd **Cynllun Gweithredu Cam 2** yn cael ei ddatblygu unwaith y bydd canfyddiadau'r gwaith ymchwil a wnaed yng Ngham 1 ar gael. Byddai angen i Cam 2 gynnwys unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol a fyddai'n angenrheidiol yn nhymor nesaf y Senedd. Bydd hyn hefyd yn galluogi Cynllun Gweithredu Cam 2 cydlynol i gael ei ddatblygu a'i ystyried yng nghyd-destun yr heriau sy'n wynebu gofal cymdeithasol a'r sefyllfa ariannol ar y pryd. Yn ystod Cam 2, byddwn yn gwneud rhagor o gynnydd gwirioneddol ar ailgydbwyso gofal a chymorth gan gynnwys gweld twf y trydydd sector, mentrau cydweithredol a'r sector cyhoeddus fel cyfryngau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau.

Fel y cam olaf yn y broses o greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, bydd **Cynllun Gweithredu Cam 3** yn mynd i'r afael â'r camau olaf yn ein cynllun i gyflawni ein gweledigaeth gyffredin o gael Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol sydd am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen. Bydd y gwasanaeth hwn wedi'i alinio â'r weledigaeth a'r uchelgais a bennwyd ar ein cyfer yn adroddiad y Grŵp Arbenigol sy'n cyflawni holl bwyntiau ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio.

Mae adroddiad y Grŵp Arbenigol yn darparu fframwaith ar gyfer symud yn ein blaenau gyda'n huchelgeisiau ac mae'r dull graddol yn golygu bod modd mynd ati i fynd i'r afael ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol.

Ar ddiwedd y cyfnod cyflawni 10 mlynedd o hyd, bydd Cymru wedi gwireddu'r weledigaeth a gyflwynir yn adroddiad y Grŵp Arbenigol o sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.

# Ymgynghori ar gydrannau cychwynnol y Cynllun Gweithredu hwn

## Ymgysylltu a Chydgynhyrchu

Argymhelliad cyntaf y Grŵp Arbenigol yw'r angen i ymgynghori ac ymgysylltu'n helaeth ar y camau nesaf. Yn benodol, mae'n argymell ymgynghori helaeth â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, eu gofalwyr, y gweithlu gofal cymdeithasol, ac ystod eang o randdeiliaid eraill. O ran cydgynhyrchu, mae'r adroddiad yn pwysleisio bod gwir gydgynhyrchu yn hanfodol i greu'r cynlluniau cyflawni graddol a'r fframweithiau gweithredol sy'n angenrheidiol er mwyn i Wasanaeth Gofal Cenedlaethol uchelgeisiol a llwyddiannus yng Nghymru ddod i'r fei.

Mae Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i wneud gwaith ymgynghori, ymgysylltu a chydgynhyrchu eang yn eu hymrwymiad i Wasanaeth Gofal Cenedlaethol.

Er mwyn cyflawni'r argymhellion, bydd gwaith yn cael ei wneud gyda rhanddeiliaid allweddol i gydgynhyrchu opsiynau cyflawni ar gyfer yr argymhellion a bydd hyn yn adeiladu ar yr arfer hyd yma o gydgynhyrchu atebion, er enghraifft, drwy grwpiau technegol cenedlaethol, tasgluoedd grwpiau gorchwyl a gorffen gydag aelodaeth o amrywiaeth o sefydliadau rhanddeiliaid a sefydliadau sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Yn ogystal, bydd cyfleoedd i ymgysylltu'n eang â sefydliadau a grwpiau cenedlaethol drwy fecanweithiau sydd eisoes ar waith, gan gynnwys, er enghraifft, gyda Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), ADSSC, Gofal Cymdeithasol Cymru, BASW, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Cydffederasiwn y GIG, Cadeiryddion ac Arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Fforwm Cenedlaethol y Darparwyr, y Comisiynydd Pobl Hŷn, y Comisiynydd Plant, Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio, Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl a chyrff cynrychioliadol.

O ystyried y bydd y cynllun gweithredu yn rhychwantu cyfnod o 10 mlynedd, y bwriad yw gwneud gwaith ymgynghori, ymgysylltu a chydgynhyrchu ar elfennau unigol y cynllun gweithredu yn unol â llinell amser y cynllun, gan ddechrau gyda'r meysydd hynny a restrir fel rhan o Gam 1. Nid yw'r dull traddodiadol o gynnal un ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu helaeth ar holl adroddiad y Grŵp Arbenigol yn debygol o fod yn effeithiol, yn enwedig mewn perthynas â'r argymhellion hynny sydd angen eu rhoi ar waith yn y tymor hwy.

Mae'r amserlenni ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu a ragwelir rhwng 2023 i 2025 wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Cam 1 cychwynnol, gydag amserlenni penodol wedi'u rhestru yn erbyn yr argymhelliad a fydd yn cael ei roi ar waith. Yn unol â'r cynllun, dechreuodd y cam ymgysylltu cyntaf yn ystod haf 2023 gyda'r ymgynghoriad ar y rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, yn benodol:

- y drafft o'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth, sy'n cynnwys y Cod Ymarfer statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) a chynigion ar y fframwaith cyflog a dilyniant gyrfa;
- cynigion ar swyddogaethau'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth;
- y drafft o'r Fframwaith Cyflog a Dilyniant Gyrfa ar gyfer Gofal Cymdeithasol



- Cod Ymarfer Rhan 2 wedi'i ddiweddaru (Swyddogaethau Cyffredinol), y Cod Ymarfer Rhan 8 ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a chanllawiau Rhan 9 wedi'u diweddaru (Cydweithredu a Phartneriaethau) o dan Ddeddf 2014;
- Cod Ymarfer Rhan 8 wedi'i ddiweddaru (Rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol).

Mae manylion y gweithgarwch ymgysylltu penodol a fydd yn digwydd fel rhan o'r ymgynghoriad i'w gadarnhau. Mae'r opsiynau'n cynnwys cynnal cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu o fewn y cyfnod ymgynghori safonol o 12 wythnos. Gallai'r rhain gael eu targedu at rannau penodol o'r sector, er enghraifft, digwyddiadau mwy technegol ar gyfer awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr gofal ochr yn ochr â digwyddiadau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, yn unol ag argymhelliad y Grŵp Arbenigol. Er mwyn sicrhau'r cyfranogiad ehangaf, mae'n debygol y byddai angen i'r ymgysylltu fod mewn ystod o fformatau, gan gynnwys digwyddiadau wyneb yn wyneb (y mae llawer yn eu cael yn fwy addas ar gyfer y sgyrsiau cydweithredol y byddem yn eu ceisio), yn ogystal â sesiynau rhithwir pe bai angen.

Er y byddai Llywodraeth Cymru'n cydgysylltu'r gwaith ymgysylltu, er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gref o bob rhan o'r sector, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill sydd mewn gwell sefyllfa i gyrraedd rhanddeiliaid allweddol ac ymgysylltu â nhw. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i sicrhau lefel dda o ymgysylltu gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth a, phan fyddai hynny'n bosibl, byddem yn ceisio ymgysylltu â sefydliadau a allai ein cefnogi gyda'r gweithgareddau ymgynghori, fel Corff Llais y Dinesydd (Llais) a sefydlwyd ym mis Ebrill 2023. Nod y corff yw cynrychioli lleisiau ac opsiynau pobl yng Nghymru o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae'n annibynnol ar y llywodraeth, y GIG ac awdurdodau lleol. Bydd gweithio gyda sefydliadau'r trydydd sector i ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth hefyd yn opsiwn i gynyddu cyfranogiad.

# Atodiad 1

## Y Cynllun Gweithredu Cychwynnol Cam 1 2022 – 2025

| Rhif Paragraff yr Adroddiad | Argymhellion Adroddiad y Grŵp Arbenigol [wedi'u cymryd yn uniongyrchol o'r adroddiad] | Camau sydd i'w cymryd yng Ngham 1 (cyflawni neu wneud rhagor o ymchwil) | Dyddiad gweithredu/ dechrau gweithgareddau | Cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu tebygol | Arweinydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 16-22 | Sefydlu Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth. | Sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth yn y Llywodraeth. | Gwanwyn 2024 | Haf 2023 | Llywodraeth Cymru – Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio (SSID), Cangen y Dyfodol |
| 41 | Ymgysylltu yn genedlaethol ag unigolion a grwpiau yn genedlaethol ar draws yr amrywiaeth o gymunedau Cymru, er mwyn sicrhau bod eu rhan hwy yn y gwaith o greu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol wedi'i gynnwys o'r cychwyn cyntaf. | Penodi Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol i gefnogi cyflawni'r rôl CSCO sy'n cysylltu ac yn ymgysylltu â dinasyddion. | Hydref / Gaeaf 2023 | Amherthnasol | |
| 66 | Gallai gorchwyl y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth gynnwys arwain ar waith ymwybyddiaeth ddiwylliannol er mwyn galluogi pob partner ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd i gydnabod y berthynas symbiotig rhwng y gweithlu gofal cyflogedig hanfodol a gofalwyr di-dâl a gwirfoddolwyr. | Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn arwain ar nifer o feysydd, gan gynnwys gwaith ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn seiliedig ar yr egwyddorion dylunio cenedlaethol y bydd yn arwain y gwaith o'u datblygu. | Haf 2023 | I'w gadarnhau | |
| 131 | Er mwyn sefydlu newid gwirioneddol tuag at ofal ataliol yn y system, dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth oruchwylio'r broses o roi'r Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol ar waith. | Datblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth a weithredir fel Cod Ymarfer statudol (y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth). | Gwanwyn 2024 | Gwanwyn 2023 (drwy'r ymgynghoriad ar ailgydbwyso) | Llywodraeth Cymru – Cangen y Dyfodol |

| Rhif Paragraff yr Adroddiad | Argymhellion Adroddiad y Grŵp Arbenigol [wedi'u cymryd yn uniongyrchol o'r adroddiad] | Camau sydd i'w cymryd yng Ngham 1 (cyflawni neu wneud rhagor o ymchwil) | Dyddiad gweithredu/ dechrau gweithgareddau | Cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu tebygol | Arweinydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cydgynhyrchu Gofal gyda Dinasyddion yng Nghymru** | | | | | |
| 35 | Wrth ddatblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru, mae'n rhaid i'r ffyrdd presennol o gasglu straeon ac adborth dinasyddion barhau i gael eu hymgorffori yn y system a'u cryfhau, gan eu galluogi i lywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau, eu gwell a galluogi dysgu parhaus. | Diweddaru'r gofynion bod angen i adroddiadau blynyddol y Cyfarwyddwyr gynnwys straeon ac adborth dinasyddion – Cod Rhan 8 wedi'i ddiweddaru ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. | Haf 2023 | Gwanwyn 2023 (drwy'r ymgynghoriad ar ailgydbwyso) | Llywodraeth Cymru – SSID, Cangen Llesiant a Gwella |
| 38 | Mae'r Grŵp yn awgrymu y dylid cael trosolwg cenedlaethol o gyflawni ar draws y sector gofal cymdeithasol a chymorth, mewn ymateb i'r cynllun 5 mlynedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar i gyflawni Mwy Na Geiriau. | Rhoi mecanwaith trosolwg cenedlaethol ar waith i fonitro'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun 5 mlynedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar i gyflawni Mwy Na Geiriau dan arweiniad y Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth. | Haf 2024 | Amherthnasol | Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol |
| **Cefnogi a Gwerthfawrogi'r Gweithlu** | | | | | |
| 49 | Mae'r Grŵp Arbenigol yn cydnabod, drwy waith y Fforwm Gwaith Teg, fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, sy'n gam yn y cyfeiriad cywir. Fodd bynnag, mae'r grŵp yn argymell y dylai'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Fforwm Gwaith Teg symud yn gyflym, ac y dylai gytuno ar safonau cenedlaethol ar gyfer y tâl, telerau ac amodau priodol ar gyfer yr holl weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. | Mae rhaglen waith y Fforwm Gwaith Teg yn cynnwys datblygu'r fframweithiau neu'r modelau sy'n ymwneud â'r canlynol:<br><br>Fframwaith Dilyniant Gyrfa | Ebrill 2024 I'w gadarnhau | Gwanwyn 2023 (drwy'r ymgynghoriad ar ailgydbwyso) | Llywodraeth Cymru – SSID, Cangen y Gweithlu |

| Rhif Paragraff yr Adroddiad | Argymhellion Adroddiad y Grŵp Arbenigol [wedi'u cymryd yn uniongyrchol o'r adroddiad] | Camau sydd i'w cymryd yng Ngham 1 (cyflawni neu wneud rhagor o ymchwil) | Dyddiad gweithredu/ dechrau gweithgareddau | Cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu tebygol | Arweinydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 51 | Fel cam nesaf ymarferol tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol effeithiol i Gymru, dylai Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol dechrau gweithio ar unwaith ar sefydlu Uned Gydfargeinio ar gyfer y sector cyfan, i gyflwyno amodau gweddus a strwythur cyflog a dilyniant newydd. | Mae'r Fforwm yn bwrw ati gyda gwaith i ddatblygu model unigryw ar ffurf 'Cyngor Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol' ar gyfer y sector gofal cymdeithasol annibynnol yng Nghymru. | Datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chytuno arno erbyn yr hydref / y gaeaf 2023 | Ebrill 2024 | Llywodraeth Cymru – SSID, Cangen y Gweithlu |
| 53 | Dylid symud ymlaen â'r adroddiad diweddar a gyflwynwyd i'r Fforwm Gwaith Teg ar brofiad Cynorthwywyr Personol fel blaenoriaeth, mewn partneriaeth â dinasyddion sy'n cyflogi Cynorthwywyr Personol. Dylai canlyniadau'r gwaith hwn roi gwybodaeth i'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth wrth gefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol wrth symud ymlaen. | Cyflogwyr Cynorthwywyr Personol a Phobl sy'n Derbyn Taliadau Uniongyrchol, Hawliau a Chyfrifoldebau. | Chwefror 2024 | Yr Hydref 2024 | |
| 55 | Mae'r grŵp yn cynghori y dylid cynorthwyo'r Fforwm Gwaith Teg i ddatblygu cynigion tuag at gydraddoldeb graddfeydd cyflog, telerau ac amodau (gan dderbyn y bydd goblygiadau i brosesau gwerthuso swyddi Awdurdodau Lleol a materion cyflog cyfartal o bosibl), a dylai hyn wedyn roi gwybodaeth i waith y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth. | Fframwaith Dilyniant Gyrfa | Fel uchod | Fel uchod | |

| Rhif Paragraff yr Adroddiad | Argymhellion Adroddiad y Grŵp Arbenigol [wedi'u cymryd yn uniongyrchol o'r adroddiad] | Camau sydd i'w cymryd yng Ngham 1 (cyflawni neu wneud rhagor o ymchwil) | Dyddiad gweithredu/ dechrau gweithgareddau | Cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu tebygol | Arweinydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Cefnogi'r Hyn sy'n Bwysig | | | | | |
| 93 | Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), a grwpiau sy'n cael eu harwain gan ddinasyddion, i drafod, cytuno a sefydlu dull cenedlaethol o gofnodi sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' yn gywir. | Sefydlu dull cenedlaethol o gofnodi sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' yn gywir drwy ddatblygu set ddata genedlaethol ar gyfer casglu ar lefel leol. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu 'straeon digidol' sy'n fwy ansoddol eu natur na data craidd. | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | Llywodraeth Cymru – SSID, Cangen Llesiant a Gwella |
| 94 | Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth hefyd weithio gydag ADSS Cymru, CLILC a phartneriaid eraill, i sefydlu un system TG Genedlaethol gyffredin ar gyfer Gofal Cymdeithasol, sy'n ei gwneud yn bosibl cofnodi sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' yn syml ac yn gywir. Wrth ddatblygu system o'r fath, dylai fod yn cael ei chydgynhyrchu gyda staff rheng flaen, fydd yn defnyddio'r system o ddydd i ddydd. | | | | |

| Rhif Paragraff yr Adroddiad | Argymhellion Adroddiad y Grŵp Arbenigol [wedi'u cymryd yn uniongyrchol o'r adroddiad] | Camau sydd i'w cymryd yng Ngham 1 (cyflawni neu wneud rhagor o ymchwil) | Dyddiad gweithredu/ dechrau gweithgareddau | Cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu tebygol | Arweinydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 96 | Mae'r grŵp yn awgrymu y dylai'r pecyn cymorth presennol ar gyfer asesu anghenion y boblogaeth gael ei newid am fodel mwy cywir sy'n adlewyrchu angen mewn ffordd ystyrlon. Dylai hyn ystyried y gallu i ddefnyddio data a gasglwyd o'r cofnod cywir newydd o sgyrsiau "beth sy'n bwysig", ochr yn ochr â data ar niferoedd y boblogaeth a chymysgedd demograffig mewn ardal Awdurdod Lleol. Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i drafod, cytuno a rhoi'r broses newydd hon ar waith. | Mae diwygio Cod Ymarfer Rhan 2 yn gyfle i ychwanegu at y gofynion presennol sy'n ymwneud â'r asesiad o anghenion y boblogaeth yng ngoleuni asesiadau blaenorol. Bydd y gwersi a ddysgwyd, yn enwedig o ran casglu a dadansoddi data, hefyd yn helpu i lywio canllawiau atodol a gyhoeddir cyn yr asesiadau o anghenion y boblogaeth a gynhelir yn 2027. | Gaeaf 2025 | Gwanwyn 2023 (drwy'r ymgynghoriad ar ailgydbwyso) | Llywodraeth Cymru – SSID, Cangen Partneriaeth ac Integreiddio |
| 83 | Mae'r grŵp yn cynghori'n gryf bod angen ail-osod y meddylfryd gweithredu sy'n llywio'r diwylliant a systemau presennol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: set o egwyddorion dyllunio newydd. | Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn arwain ar weithio gyda rhanddeiliaid allweddol a dinasyddion i gydgynhyrchu egwyddorion dylunio cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol. | 2024 | I'w gadarnhau | Llywodraeth Cymru – SSID, Cangen y Dyfodol |

| Rhif Paragraff yr Adroddiad | Argymhellion Adroddiad y Grŵp Arbenigol [wedi'u cymryd yn uniongyrchol o'r adroddiad] | Camau sydd i'w cymryd yng Ngham 1 (cyflawni neu wneud rhagor o ymchwil) | Dyddiad gweithredu/ dechrau gweithgareddau | Cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu tebygol | Arweinydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 85 | Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth weithio mewn partneriaeth i gydlynu'r gwaith o ddatblygu set genedlaethol o egwyddorion dylunio, yn seiliedig ar y Ddeddf, i rymuso arweinwyr i gefnogi cydgynhyrchu'n rhwydd ar ben blaen y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Byddai hyn yn galluogi arweinwyr ledled Cymru i gydweithio'n gyfartal gyda gweledigaeth a rennir y gellir rheoli diwylliant sefydliadol a darparu gwasanaethau yn ei herbyn. | | | | |
| 88 | Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth sicrhau bod dinasyddion wrth galon pob penderfyniad, gan gynnwys cydgynhyrchu'r egwyddorion dylunio newydd. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddfa fod yn fodlon bod lleisiau dinasyddion, gofalwyr di-dâl a sefydliadau cymunedol yn cael eu cynnwys ar bob lefel, o gynllunio gwasanaethau i adolygu, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gyda chydbwysedd rhwng cymesuredd lleisiau proffesiynol a lleisiau cymunedol yn y gofod dylunio. | | | | |

| Rhif Paragraff yr Adroddiad | Argymhellion Adroddiad y Grŵp Arbenigol [wedi'u cymryd yn uniongyrchol o'r adroddiad] | Camau sydd i'w cymryd yng Ngham 1 (cyflawni neu wneud rhagor o ymchwil) | Dyddiad gweithredu/ dechrau gweithgareddau | Cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu tebygol | Arweinydd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ffurfio partneriaeth yn lleol o gwmpas yr unigolyn sydd angen cymorth** | | | | | |
| 105 | Er mwyn sicrhau atebolrwydd am gwrdd ag anghenion gofal a chymorth poblogaethau lleol o dan y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, mae'r Grŵp yn awgrymu y dylai fod gan Awdurdodau Lleol rôl wedi'i mynegi'n glir i reoli perfformiad trefniadau partneriaeth leol, mewn perthynas â'r graddau y mae'r partneriaethau hynny'n gallu cwrdd yn effeithiol ag anghenion a amlinellwyd mewn sgyrsiau 'beth sy'n bwysig'. | Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn cefnogi Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol fel sefydliadau darparu a chomisiynu i sicrhau bod eu prosesau monitro perfformiad yn cynnwys cipio a dadansoddi data sy'n mesur canlyniadau a gallu gwasanaethau i gefnogi pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrff Rheoleiddio a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu cyfres o fesurau perfformiad i ddangos effaith ac effeithiolrwydd gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu a/neu eu darparu ar y cyd. | Gwanwyn 2024<br><br>2024 | Gwanwyn 2023 (drwy'r ymgynghoriad ar ailgydbsywo)<br><br>I'w gadarnhau | Llywodraeth Cymru – SSID, Cangen Partneriaeth ac Integreiddio |
| 67 | Er mwyn sefydlu cydnabyddiaeth ddiwylliannol i ofalwyr di-dâl, gallai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth hefyd ymroi'n rhagweithiol i hyrwyddo Siarter a Strategaeth Gofalwyr ar lefel genedlaethol, gan gadarnhau pwysigrwydd parhaus cefnogi gofalwyr di-dâl a cheisio sicrhau bod brand cenedlaethol gofal cymdeithasol yn adlewyrchu'r swyddogaeth y mae gofalwyr di-dâl o bob oed yn ei chyflawni. | Cynnwys siarter Gofalwyr Llywodraeth Cymru o fewn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth.<br><br>Cyflawni'r Strategaeth Gofalwyr draws-lywodraethol drwy'r Cynllun Cyflawni Gofalwyr. | Gwanwyn 2024 | Gwanwyn 2023 (drwy'r ymgynghoriad ar ailgydbwyso) | Llywodraeth Cymru – SSID, Tîm Gofalwyr Di-dâl |

| Rhif Paragraff yr Adroddiad | Argymhellion Adroddiad y Grŵp Arbenigol [wedi'u cymryd yn uniongyrchol o'r adroddiad] | Camau sydd i'w cymryd yng Ngham 1 (cyflawni neu wneud rhagor o ymchwil) | Dyddiad gweithredu/ dechrau gweithgareddau | Cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu tebygol | Arweinydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 70 | Dylid ystyried hefyd symud i fodel o seibiant hyblyg, a dylai cyllid blynyddol fod ar gael i archwilio a chynyddu dewisiadau seibiant gwahanol, neu efelychu prosiectau bychain llwyddiannus ledled Cymru. | Mae rhaglen ariannu 3 blynedd ar gael i gefnogi modelau hyblyg o seibiannau byr. | 2023 | I'w gadarnhau | Llywodraeth Cymru – SSID, Tîm Gofalwyr Di-dâl |
| 114 | Ar yr un pryd, gellid creu fframwaith atebolrwydd o allbynnau a disgwyliadau i gyd-fynd â'r model ariannu gofal cymdeithasol Cenedlaethol. Dylid dal Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill a ariennir yn atebol am gyflawni allbynnau a disgwyliadau, yn erbyn egwyddorion y model ariannu cenedlaethol. Felly, dylid adeiladu adborth, ar ba mor effeithiol yw'r model ariannu o ran darparu adnoddau, i mewn i'r broses fonitro barhaus. | Datblygu Adroddiadau Pwynt Gwirio Gofal Cymdeithasol fel ffynhonnell data i gynorthwyo meincnodi a dysgu system. | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | Llywodraeth Cymru – SSID, Cangen Llesiant a Gwella |
| 117 | Dylai'r dull polisi Gofal Iechyd Parhaus (GIP) presennol fel ag y mae gael ei ddileu o'r system gofal cymdeithasol cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Dylai'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth flaenoriaethu gwaith gyda CLILC, ADSS Cymru, a Chydffederasiwn GIG Cymru i nodi amserlen ar gyfer dirwyn y fframwaith GIP presennol i ben yn raddol. | YMCHWIL: Adolygu'r polisi GIP presennol a gwelliannau i'r system ar ôl i'r canllawiau wedi'u diweddaru/newydd gael eu rhoi ar waith. Llunio cyngor polisi ar argymhellion ar gyfer y cam nesaf, gan nodi nad yw'r ddeddfwriaeth ofynnol ar waith eto. | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | Llywodraeth Cymru – Cangen Polisi Gofal Iechyd Parhaus |

| Rhif Paragraff yr Adroddiad | Argymhellion Adroddiad y Grŵp Arbenigol [wedi'u cymryd yn uniongyrchol o'r adroddiad] | Camau sydd i'w cymryd yng Ngham 1 (cyflawni neu wneud rhagor o ymchwil) | Dyddiad gweithredu/ dechrau gweithgareddau | Cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu tebygol | Arweinydd |
|---|---|---|---|---|---|
| Buddsoddi mewn Atal ac Ymyrraeth Gynnar | | | | | |
| 122 | Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth fonitro Awdurdodau Lleol am y gyfran gymharol o'u cyllideb sy'n cael ei gwario'n flynyddol ar atal ac ymyrryd yn gynnar a dwyn ynghyd y wybodaeth hon ar gyfer blaenoriaethau ariannu ar lefel genedlaethol a chynorthwyo gyda rhwystrau diwylliannol ledled Cymru a all fod yn effeithio arnynt. | YMCHWIL: Cynnal ymchwil i gyllideb awdurdodau lleol a gwariant blynyddol ar wasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar sy'n rhychwantu'r 10 mlynedd diwethaf ac, unwaith y bydd y gwaith ymchwil wedi'i gwblhau, ystyried y cyllid sy'n ofynnol fel rhan o drafodaethau ehangach ar ariannu gofal cymdeithasol. Rhaid cydnabod y bydd angen eglurhad penodol iawn ar fathau o wasanaethau sy'n cael eu darparu a'u hasesu er mwyn sicrhau cymariaethau cywir. | 2024–25 | I'w gadarnhau | Llywodraeth Cymru – Cangen Talu am Ofal |
| 123 | Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i lefel y gwariant ar ofal cymdeithasol ataliol a gomisiynwyd (o gymharu â chyfanswm y gwariant ar ofal cymdeithasol) fesul ardal Awdurdod Lleol, yn flynyddol dros y 10 mlynedd ddiwethaf. | | | | |
| 125 | Dylai Llywodraeth Cymru felly ystyried ychwanegu rhagor o adnoddau ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol. | | | | |

| Rhif Paragraff yr Adroddiad | Argymhellion Adroddiad y Grŵp Arbenigol [wedi'u cymryd yn uniongyrchol o'r adroddiad] | Camau sydd i'w cymryd yng Ngham 1 (cyflawni neu wneud rhagor o ymchwil) | Dyddiad gweithredu/ dechrau gweithgareddau | Cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu tebygol | Arweinydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 139 | Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn nodi'n ddigonol nac yn gywir beth allai cyfanswm y diffyg fod mewn buddsoddiad mewn gofal cymdeithasol. Felly, mae'r Grŵp yn awgrymu bod y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn cynnal gwaith ymchwil gyda CLILC a Chydffederasiwn y GIG i asesu'r lefel ofynnol o fuddsoddiad, er mwyn llywio cyfeiriad polisi yn y dyfodol. | YMCHWIL: Gwneud gwaith ac ymchwil i ddeall yn well lefel y cyllid sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol cynaliadwy. | 2023-24 | Amherthnasol | Llywodraeth Cymru – Trysorlys Cymru a'r Is-adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio |
| 141 | Mae'r Grŵp yn argymell, fel cam cyntaf tuag at ofal sydd am ddim lle a phan fo'i angen, y dylai Llywodraeth Cymru symud tuag at drefn codi tâl lle mae'r rhan fwyaf o ofal dibreswyl yn cael ei ddarparu am ddim mewn lleoliad dibreswyl. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth gyntaf oherwydd y gall taliadau am ofal dibreswyl achosi caledi ariannol i bobl ac effeithio ar eu hurddas a'u lles. | YMCHWIL: Gwneud gwaith ac ymchwil i ddeall effeithiau ariannol a gweithredol gofal am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen – gan gyfeirio at argymhellion y Grŵp Arbenigol. | 2023 – 2025 | Amherthnasol | Llywodraeth Cymru – Cangen Talu am Ofal |
| 142 | Fodd bynnag, gan gydnabod y blaenoriaethau sy'n cystadlu am fuddsoddiad (yn fwyaf arwyddocaol, cydnabyddiaeth ariannol fwy digonol i'r gweithlu gofal cymdeithasol) mae'r Grŵp Arbenigol yn awgrymu mabwysiadu dull graddol o ddiwygio taliadau. | | | | |

| Rhif Paragraff yr Adroddiad | Argymhellion Adroddiad y Grŵp Arbenigol [wedi'u cymryd yn uniongyrchol o'r adroddiad] | Camau sydd i'w cymryd yng Ngham 1 (cyflawni neu wneud rhagor o ymchwil) | Dyddiad gweithredu/ dechrau gweithgareddau | Cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu tebygol | Arweinydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 143 | Mae'r Grŵp hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru symud tuag at gyfundrefn codi tâl lle mae costau gofal (ac eithrio costau llety) yn cael eu darparu am ddim mewn lleoliad preswyl. Fodd bynnag, gan gydnabod y blaenoriaethau fydd o bosibl yn cystadlu am fuddsoddiad fel y trafodwyd uchod, efallai y bydd rhaid cyflwyno hyn fesul cam. | | 2023 – 2025 | Amherthnasol | Llywodraeth Cymru – Cangen Talu am Ofal |
| 147 | Mae'r Grŵp yn awgrymu y dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth weithio mewn partneriaeth â CLILC, Cydffederasiwn y GIG a darparwyr, i nodi beth ddylai'r gyfradd ffioedd gofal fod. Dylid gosod hwn yn genedlaethol, a chael adnoddau priodol ar ei gyfer. | YMCHWIL: Dechrau gwaith tuag at ddatblygu methodolegau ffioedd cenedlaethol gan gynnwys ar gyfer cartrefi gofal. (Cam 2 y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth). | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | Llywodraeth Cymru – Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio |
| Rôl elw yn y system ofal | | | | | |
| 155 | Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod mater elw yn y system ofal yn cael ei integreiddio i'r cynllun ymgynghori cyhoeddus ehangach ynghylch datblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, a bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn cael eu galluogi i gymryd rhan ynddo. | Bwrw ymlaen â'r gwaith a gychwynnwyd o dan y rhaglen Dileu a'r rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth er mwyn egluro 'elw' a nodweddion sefydliadau nid-er-elw. | Parhaus | I'w gadarnhau | Llywodraeth Cymru – SSID, Is-adran Galluogi |

| Rhif Paragraff yr Adroddiad | Argymhellion Adroddiad y Grŵp Arbenigol [wedi'u cymryd yn uniongyrchol o'r adroddiad] | Camau sydd i'w cymryd yng Ngham 1 (cyflawni neu wneud rhagor o ymchwil) | Dyddiad gweithredu/ dechrau gweithgareddau | Cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu tebygol | Arweinydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 159 | Gallai Llywodraeth Cymru gychwyn deialog ag awdurdodau lleol ynghylch ehangu'n raddol gapasiti'r ddarpariaeth uniongyrchol, yn y gwasanaethau plant a'r gwasanaethau oedolion, gan hefyd fynd ati i gydnabod egwyddorion Deddf 2014. | Mae'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso eisoes ar waith a fydd yn galluogi ehangu'r ddarpariaeth uniongyrchol. | Parhaus | Amherthnasol | Llywodraeth Cymru – SSID, Cangen Partneriaeth ac Integreiddio |
| 160 | Gallai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa gyfalaf a refeniw fyddai'n ehangu'n raddol, i ddarparu cyfleoedd i ddod â gwasanaethau yn ôl yn fewnol pan fo angen, tra'n cydnabod y Ddeddf. Dylid ychwanegu hyn at setliad llywodraeth leol, a dylai fod yn ychwanegol at gynlluniau peilot Awdurdodau Lleol dethol ar gyfer darpariaeth uniongyrchol fewnol yn bennaf. | | | | |

# Atodiad 2

## Argymhellion yng Nghynllun Gweithredu Cam 1

| Argymhellion yr Adroddiad | | Cam 1 2022 - 2025 | |
|---|---|---|---|
| **Rhif Paragraff yr Adroddiad** | **Cyflwyniad** | **Gweithgaredd** | **Ymchwil** |
| **Cydgynhyrchu gofal gyda dinasyddion yng Nghymru** | | | |
| **Mynd i'r afael â'r anghydbwysedd grym** | | | |
| 35 | Wrth ddatblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru, mae'n rhaid i ffyrdd presennol o gasglu straeon dinasyddion ac adborth barhau i gael eu hymgorffori yn y system a'i chryfhau, gan eu galluogi i hysbysu'r gwaith o gynllunio gwasanaethau, eu gwella a galluogi dysgu parhaus. | X | |
| **Cydraddoldeb a chynhwysiant** | | | |
| 16 – 22 | Sefydlu Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn y Llywodraeth | X | |
| 38 | Mae'r Grŵp yn awgrymu y dylid cael trosolwg cenedlaethol o gyflawni ar draws y sector gofal cymdeithasol a chymorth, mewn ymateb i'r Cynllun 5 mlynedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar i gyflawni Mwy Na Geiriau. | X | |
| **Cydgynhyrchu gofal gyda dinasyddion yng Nghymru** | | | |
| **Cydraddoldeb a chynhwysiant** | | | |
| 41 | Dylid ymgysylltu ag unigolion a grwpiau yn genedlaethol ar draws yr amrywiaeth o gymunedau yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod eu rhan hwy yn y gwaith o greu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol wedi ei gynnwys o'r cychwyn cyntaf. | X | |

| Argymhellion yr Adroddiad | | Cam 1<br>2022 - 2025 | |
|---|---|---|---|
| **Rhif Paragraff yr Adroddiad** | **Cyflwyniad** | **Gweithgaredd** | **Ymchwil** |
| 49 | Dylai'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Fforwm Gwaith Teg symud yn gyflym, ac y dylai gytuno ar safonau cenedlaethol ar gyfer tâl, telerau ac amodau priodol ar gyfer yr holl weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. | X | |
| 51 | Dylai Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol ddechrau gweithio ar unwaith ar sefydlu Uned Gydfargeinio ar gyfer y sector cyfan, i gyflwyno amodau gweddus a strwythur cyflog a dilyniant newydd. | X | |
| 53 | Dylid symud ymlaen â'r adroddiad diweddar a gyflwynwyd i'r Fforwm Gwaith Teg ar brofiad Cynorthwywyr Personol fel blaenoriaeth, mewn partneriaeth â dinasyddion sy'n cyflogi Cynorthwywyr Personol. Dylai canlyniadau'r gwaith hwn roi gwybodaeth i'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth wrth gefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol wrth symud ymlaen. | X | |
| 55 | Mae'r grŵp yn cynghori y dylid cynorthwyo'r Fforwm Gwaith Teg i ddatblygu cynigion tuag at gydraddoldeb graddfeydd cyflog, telerau ac amodau (gan dderbyn y bydd goblygiadau i brosesau gwerthuso swyddi Awdurdodau Lleol a materion cyflog cyfartal o bosibl), a dylai hyn wedyn roi gwybodaeth i waith y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth. | X | |
| **Gofalwyr di dâl** | | | |
| 66 | Gallai gorchwyl y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth gynnwys arwain ar waith ymwybyddiaeth ddiwylliannol er mwyn galluogi pob partner ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd i gydnabod y berthynas symbiotig rhwng y gweithlu gofal cyflogedig hanfodol a gofalwyr di-dâl a gwirfoddolwyr | X | |
| 67 | Er mwyn sefydlu cydnabyddiaeth ddiwylliannol i ofalwyr di-dâl, gallai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth hefyd ymroi'n rhagweithiol i hyrwyddo Siarter a Strategaeth Gofalwyr ar lefel genedlaethol, gan gadarnhau pwysigrwydd parhaus cefnogi gofalwyr di-dâl a cheisio sicrhau bod brand cenedlaethol gofal cymdeithasol yn adlewyrchu'r swyddogaeth y mae gofalwyr di-dâl o bob oed yn ei chyflawni | X | |
| 70 | Dylid ystyried hefyd symud i fodel o seibiant hyblyg, a dylai cyllid blynyddol fod ar gael i archwilio a chynyddu dewisiadau seibiant gwahanol, neu efelychu prosiectau bychain llwyddiannus ledled Cymru. | X | |

| Argymhellion yr Adroddiad | | Cam 1<br>2022 - 2025 | |
|---|---|---|---|
| **Rhif Paragraff yr Adroddiad** | **Cyflwyniad** | **Gweithgaredd** | **Ymchwil** |
| **Cefnogi'r hyn sy'n bwysig** | | | |
| **'Egwyddorion dylunio' newydd ar gyfer Gofal Cymdeithasol** | | | |
| 83 | Ail-osod y meddylfryd gweithredu sy'n llywio'r diwylliant a'r systemau presennol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: 'set o egwyddorion dylunio' newydd. | X | |
| 85 | Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth weithio mewn partneriaeth i gydlynu'r gwaith o ddatblygu set genedlaethol o egwyddorion dylunio, yn seiliedig ar y Ddeddf, i rymuso arweinwyr i gefnogi cydgynhyrchu'n rhwydd ar ben blaen y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Byddai hyn yn galluogi arweinwyr ledled Cymru i gydweithio'n gyfartal gyda gweledigaeth a rennir y gellir rheoli diwylliant sefydliadol a darparu gwasanaethau yn ei herbyn. | | |
| 88 | Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth sicrhau bod dinasyddion wrth galon pob penderfyniad, gan gynnwys cydgynhyrchu'r egwyddorion dylunio newydd. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddfa fod yn fodlon bod lleisiau dinasyddion, gofalwyr di-dâl a sefydliadau cymunedol yn cael eu cynnwys ar bob lefel, o gynllunio gwasanaethau i adolygu, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gyda chydbwysedd rhwng cymesuredd lleisiau proffesiynol a lleisiau cymunedol yn y gofod dylunio. | X | |
| **Mantais ehangach sgyrsiau beth sy'n bwysig'** | | | |
| 93 | Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, CLILC, a grwpiau sy'n cael eu harwain gan ddinasyddion, i drafod, cytuno a sefydlu dull cenedlaethol o gofnodi sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' yn gywir. | X | |

| Argymhellion yr Adroddiad | | Cam 1<br>2022 - 2025 | |
|---|---|---|---|
| **Rhif Paragraff yr Adroddiad** | **Cyflwyniad** | **Gweithgaredd** | **Ymchwil** |
| 94 | Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth hefyd weithio gydag ADSS Cymru, CLILC a phartneriaid eraill, i sefydlu un system TG Genedlaethol gyffredin ar gyfer Gofal Cymdeithasol, sy'n ei gwneud yn bosibl cofnodi sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' yn syml ac yn gywir. Wrth ddatblygu system o'r fath, dylai fod yn cael ei chydgynhyrchu gyda staff rheng flaen, fydd yn defnyddio'r system o ddydd i ddydd. | X | |
| 96 | Dylai'r pecyn cymorth presennol ar gyfer asesu anghenion y boblogaeth gael ei newid am fodel mwy cywir sy'n adlewyrchu 'angen' mewn ffordd ystyrlon. Dylai hyn ystyried y gallu i ddefnyddio data a gasglwyd o'r cofnod cywir newydd o sgyrsiau 'beth sy'n bwysig', ochr yn ochr â data ar niferoedd poblogaeth a chymysgedd demograffig mewn ardal Awdurdod Lleol. Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i drafod, cytuno a rhoi'r broses newydd hon ar waith. | X | |
| **Ffurfio partneriaeth yn lleol o gwmpas yr unigolyn sydd angen cymorth** | | | |
| **Atebolrwydd ar lefel partneriaeth leol** | | | |
| 105 | Er mwyn sicrhau atebolrwydd am gwrdd ag anghenion gofal a chymorth poblogaethau lleol o dan y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, mae'r Grŵp yn awgrymu y dylai fod gan Awdurdodau Lleol rôl wedi'i mynegi'n glir i reoli perfformiad trefniadau partneriaeth leol, mewn perthynas â'r graddau y mae'r partneriaethau hynny'n gallu cwrdd yn effeithiol ag anghenion a amlinellwyd mewn sgyrsiau 'beth sy'n bwysig'. | X | |
| **Ymreolaeth, atebolrwydd a chyllid Awdurdodau Lleol** | | | |
| 114 | Gellid creu fframwaith atebolrwydd o allbynnau a disgwyliadau i gyd-fynd â'r model ariannu gofal cymdeithasol Cenedlaethol. Dylid dal Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill a ariennir yn atebol am gyflawni allbynnau a disgwyliadau, yn erbyn egwyddorion y model ariannu cenedlaethol. Felly, dylid adeiladu adborth, ar ba mor effeithiol yw'r model ariannu o ran darparu adnoddau, i mewn i'r broses fonitro barhaus. | | X |

| Argymhellion yr Adroddiad | | Cam 1<br>2022 - 2025 | |
|---|---|---|---|
| **Rhif Paragraff yr Adroddiad** | **Cyflwyniad** | **Gweithgaredd** | **Ymchwil** |
| **Gofal Iechyd Parhaus** | | | |
| 117 | Dylai'r dull polisi GIP presennol fel ag y mae gael ei ddileu o'r system gofal cymdeithasol cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth flaenoriaethu gwaith gyda CLILC, ADSS Cymru, a Chydffederasiwn GIG Cymru i nodi amserlen ar gyfer dirwyn y fframwaith GIP presennol i ben yn raddol. | | X |
| Buddsoddi mewn Atal ac Ymyrr aeth Gynnar | | | |
| 122 | Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth fonitro Awdurdodau Lleol am y gyfran gymharol o'u cyllideb sy'n cael ei gwario'n flynyddol ar atal ac ymyrryd yn gynnar a dwyn ynghyd y wybodaeth hon ar gyfer blaenoriaethau ariannu ar lefel genedlaethol a chynorthwyo gyda rhwystrau diwylliannol ledled Cymru a all fod yn effeithio arnynt. | | X |
| 123 | Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i lefel y gwariant ar ofal cymdeithasol ataliol a gomisiynwyd (o gymharu â chyfanswm y gwariant ar ofal cymdeithasol) fesul ardal Awdurdod Lleol, yn flynyddol dros y 10 mlynedd ddiwethaf. | | X |
| 125 | Dylai Llywodraeth Cymru felly ystyried ychwanegu rhagor o adnoddau ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol. | | X |
| **Rôl y Trydydd Sector, mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol** | | | |
| 131 | Er mwyn sefydlu newid gwirioneddol tuag at ofal ataliol yn y system, dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth oruchwylio'r broses o roi'r Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol ar waith. | | X |
| **Tegwch cyfundrefnau codi tâl** | | | |
| 139 | Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn nodi'n ddigonol nac yn gywir beth allai cyfanswm y diffyg fod mewn buddsoddiad mewn gofal cymdeithasol. Felly, mae'r Grŵp yn awgrymu bod y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn cynnal gwaith ymchwil gyda CLILC a Chydffederasiwn y GIG i asesu'r lefel ofynnol o fuddsoddiad, er mwyn llywio cyfeiriad polisi yn y dyfodol. | | X |

| Argymhellion yr Adroddiad | | Cam 1<br>2022 - 2025 | |
|---|---|---|---|
| **Rhif Paragraff yr Adroddiad** | **Cyflwyniad** | **Gweithgaredd** | **Ymchwil** |
| **Ystyried dewisiadau codi tâl** | | | |
| 141 | Mae'r Grŵp yn argymell, fel cam cyntaf tuag at ofal sydd am ddim lle a phan fo'i angen, y dylai Llywodraeth Cymru symud tuag at drefn codi tâl lle mae'r rhan fwyaf o ofal dibreswyl yn cael ei ddarparu am ddim mewn lleoliad dibreswyl. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth gyntaf oherwydd y gall taliadau am ofal dibreswyl achosi caledi ariannol i bobl ac effeithio ar eu hurddas a'u lles. | | X |
| 142 | Fodd bynnag, gan gydnabod y blaenoriaethau sy'n cystadlu am fuddsoddiad (yn fwyaf arwyddocaol, cydnabyddiaeth ariannol fwy digonol i'r gweithlu gofal cymdeithasol) mae'r Grŵp Arbenigol yn awgrymu mabwysiadu dull graddol o ddiwygio taliadau. | | X |
| 143 | Mae'r Grŵp hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru symud tuag at gyfundrefn codi tâl lle mae costau gofal (ac eithrio costau llety) yn cael eu darparu am ddim mewn lleoliad preswyl. Fodd bynnag, gan gydnabod y blaenoriaethau fydd o bosibl yn cystadlu am fuddsoddiad fel y trafodwyd uchod, efallai y bydd rhaid cyflwyno hyn fesul cam. | | X |
| **Ystyriaethau i Lywodraeth Cymru yn ymwneud â chodi tâl** | | | |
| 147 | Dylai'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth weithio mewn partneriaeth â CLILC, Cydffederasiwn y GIG a darparwyr, i nodi beth ddylai'r gyfradd ffioedd gofal fod. Dylid gosod hwn yn genedlaethol, a chael adnoddau priodol ar ei gyfer. | | X |
| **Rôl elw yn y system ofal** | | | |
| 155 | Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod mater elw yn y system ofal yn cael ei integreiddio i'r cynllun ymgynghori cyhoeddus ehangach ynghylch datblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, a bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn cael eu galluogi i gymryd rhan ynddo | X | |

| Argymhellion yr Adroddiad | | Cam 1<br>2022 - 2025 | |
|---|---|---|---|
| **Rhif Paragraff yr Adroddiad** | **Cyflwyniad** | **Gweithgaredd** | **Ymchwil** |
| 159 | Gallai Llywodraeth Cymru gychwyn deialog ag awdurdodau lleol ynghylch ehangu'n raddol gapasiti darpariaeth uniongyrchol, yn y gwasanaethau plant a'r gwasanaethau oedolion, tra'n cydnabod y Ddeddf yn bendant. | X | |
| 160 | Gallai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa gyfalaf a refeniw fyddai'n ehangu'n raddol, i ddarparu cyfleoedd i ddod â gwasanaethau yn ôl yn fewnol pan fo angen, tra'n cydnabod y Ddeddf. Dylid ychwanegu hyn at setliad llywodraeth leol, a dylai fod yn ychwanegol at gynlluniau peilot Awdurdodau Lleol dethol ar gyfer darpariaeth uniongyrchol fewnol yn bennaf. | X | |